**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:**

Ydy, mae hynny'n wir.

Gall plâu planhigion ledaenu, ac o'r herwydd ystyrir bod bioddiogelwch yn ymdrech ar y cyd rhwng Llywodraethau Prydain Fawr. Er mwyn cefnogi'r ymdrech ar y cyd hon, mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn plismona iechyd planhigion ledled Prydain Fawr. Bydd y cosbau ariannol a delir yn unol â'r Rheoliadau hyn yn cael eu talu i gronfa gyfunol y DU gan fod iechyd planhigion yng Nghymru yn cael ei blismona gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ac yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU.